

Crynodeb Gweithredol

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywioldeb (2011 - 2012)

Dyma Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywioldeb cyntaf Prifysgol Aberystwyth mewn perthynas â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 ar gyfer Cymru. Daw'r adroddiad yn sgil gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf y Brifysgol yn 2012, ynghyd â'i Gynllun Gweithredu, a dod â'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl blaenorol i ben. Un o ofynion allweddol y Dyletswyddau Cydraddoldeb yw bod y Brifysgol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi sut y mae'n cydymffurfio â'r dyletswyddau. Nod yr adroddiad hwn felly yw cyflawni'r gofyniad hwn am y flwyddyn Ebrill 2011 hyd at fis Mawrth 2012, ac mae'n amlinellu'r gweithgareddau a wnaed er mwyn:

- dangos cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb;
- dangos tystiolaeth o'r camau a gymerwyd gan y Brifysgol i fynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- cynorthwyo i lywio meysydd i'w datblygu yn y dyfodol;
- amlinellu trefniadau ar gyfer adnabod, casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol, yn ogystal ag ystyried gofynion yn y dyfodol;
- adrodd ar wybodaeth a gasglwyd a'i dadansoddi yn ôl ein rhwymedigaethau cyfreithiol;
- rhoi cyhoeddusrwydd i ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb ac amrywioldeb, lle caiff diwylliant o barch a dealltwriaeth ei feithrin ac y rhoddir gwerth cadarnhaol ar amrywiaeth y gymuned.

Mae cyflawniadau ac uchafbwyntiau allweddol yn ystod 2011 a 2012 yn cynnwys:

- ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- sefydlu a datblygu rôl Hyrwyddwyr Cydraddoldeb;
- ein fideo cydraddoldeb yn cael ei rhoi ar restr fer Gwobr Heist 2011 ar gyfer Ymgyrch Cyfathrebu Mewnol Gorau ac ail-lansio'r fideo;
- yr Adran Gwaith a Phensiynau (Canolfan Byd Gwaith) yn adnewyddu cydnabyddiaeth y Tic Dwbl, sef ein nawfed blwyddyn yn gweithredu'r cynllun;
- cynnal arolygon i adolygu a llywio gwaith i wella lles ac iechyd staff;
- rhoi proses newydd i Adolygu Perfformiad a Datblygiad Staff ar waith;
- bod yn aelod o Siarter Athena SWAN i gefnogi menywod mewn gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg;
- datblygu canllawiau arfer da ar ddatblygu polisiau, gan gynnwys templed safonol a ffurflen sgrinio polisi Asesu Effaith Cydraddoldeb;
- datblygu tudalennau 'Rhwydweithiau a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb' ar y we i roi gwybodaeth am Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Athena SWAN, Tic Dwbl a rhwydweithiau cydraddoldeb;
- diweddarau ac ail-lansio'r tiwtorial e-ddysgu amrywioldeb i hyrwyddo Deddf Cydraddoldeb 2010 gan roi rhyngwyneb haws ei ddefnyddio iddo.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bennawd ynghylch data monitro cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012 ac mae'n rhestru camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rhoddir data myfyrwyr hefyd ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2010-11.

Cafodd yr adroddiad ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb a'i gymeradwyo gan ein Cyngor. Mae ar gael ar wefan Cydraddoldeb: <http://www.aber.ac.uk/cy/equality/>.

Mawrth 2013



Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

(gan adrodd am y cyfnod 6 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012)

Mawrth 2013

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu adborth am yr adroddiad hwn, yna cysylltwch â'r Cyngorydd Cydraddoldeb ar 01970 62 8598 neu e-bostiwch opp@aber.ac.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein ar wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, <http://www.aber.ac.uk/cy/hr/equalopp/>. Mae hefyd ar gael mewn sawl fformat, e.e. copi caled, Braille, print bras, ac ati ar gais. Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod angen y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Cyngorydd Cydraddoldeb ar 01970 62 8598 neu anfonwch e-bost at opp@aber.ac.uk.

CYNNWYS

1. Cyflwyniad	1
2. Fframwaith ar gyfer Cydraddoldeb	2
3. Hyrwyddo a Chefnogi Cydraddoldeb.....	3
4. Monitro Cydraddoldeb	6
5. Penawdau Data Allweddol	7
6. Casgliadau a Chamau Gweithredu	10

Dadansoddiad Ystadegol:

a. Data Cyflogaeth Staff	11-19
1 Pobl a gyflogid ar 31 Mawrth 2012 (Cyfansoddiad y Staff)	11
• Rhywedd	11
• Anabledd	14
• Ethnigrwydd	14
• Cenedligrwydd	15
• Oedran	16
• Cymraeg	17
• Nodweddion Gwarchodedig Eraill	17
2 Data Ceisiadau am swyddi	18
3 Cyflogeion sydd wedi newid swydd.....	18
4 Cyflogeion wedi'u hyfforddi	18
5 Cyflogeion sydd wedi ymwneud â gweithdrefnau disgyblu a chwyno.....	19
6 Cyflogeion sydd wedi gadael ein cyflogaeth.....	19
b. Data Myfyrwyr.....	20-27
1 Cyfansoddiad y Myfyrwyr (Blwyddyn Academaidd 2011/12)	20
• Rhywedd	20
• Anabledd	21
• Ethnigrwydd	21
• Cenedligrwydd	22
• Oedran	22
• Siaradwyr Cymraeg	23
• Nodweddion Gwarchodedig Eraill	23
2 Ceisiadau.....	23
3 Cadw	25
4 Cyrhaeddiad.....	26
5 Lleoliadau Gwaith	27
6 Cwynion	27

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi rhoi cymhelliant i Brifysgol Aberystwyth fynd ati i hybu ymhellach ein diwylliant a'n hamgylchedd cynhwysol. Mae hefyd yn ein helpu i fwrw ymlaen ag ymgorffori a phrif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ein gwaith a'n gweithgareddau. Yn ogystal, mae'n ategu gweithredu ein hamcanion a'n cynllun strategol newydd ar gyfer 2012-2017, yn ogystal â chyd-fynd â'n diwylliant o ddarparu amgylchedd lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion, a lle gall ein cymuned weithio, dysgu, ffynnu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Mae'r Brifysgol wedi llunio adroddiad ar gydraddoldeb ac amrywioldeb ers sawl blwyddyn bellach (ers 2003) a'r adroddiad hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a ddrafftwyd ym mis Ebrill 2012 ac ers dod â'n Cynllun Cydraddoldeb Sengl i ben.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd sawl darn yn y gyfraith bresennol ar wrth-wahaniaethu gan eu cyfuno yn un fframwaith cyfreithiol sengl ac yn cynnig amddiffyniad i bobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys nodweddion Hil, Anabledd, Rhywedd, Oed, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd neu Gred, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, a Beichiogrwydd a Mamolaeth. Mae'r Ddeddf yn cynnwys tair Dyletswydd Gyffredinol, sef:-

1. dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
2. gwthio ymlaen gyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a
3. meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

Cefnogir y Ddeddf gan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 sy'n benodol i Gymru a weithredir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys mesurau i sicrhau bod y Dyletswyddau Cyffredinol uchod yn cael eu diwallu. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion pobl. Er enghraifft, mae'n cynnwys yr angen i:

- hyrwyddo'r Ddyletswydd Gyffredinol ac asesu'r effaith ar ein gallu i gydymffurfio â hi;
- cyhoeddi Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol;
- nodi a dadansoddi data a gwybodaeth a chyhoeddi'r wybodaeth a'r canfyddiadau hyn mewn adroddiad blynyddol;
- darparu darpariaethau Cyflog Cyfartal, adnabod anghenion hyfforddi ac ati.

Mae rhagor o wybodaeth ar y dyletswyddau yng Nghymru i'w chael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC):

<http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-yng-nghymru/>.

Dengys ein Hadroddiad Blynyddol y camau a wnaed yn 2010/11 i gyflawni'r dyletswyddau hyn ac mae'n cynnwys data cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012, data myfyrwyr yn y flwyddyn 2011/12 a sut y defnyddiwyd yr wybodaeth hon yn sail i weithredu. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi ystod o weithgarwch cydraddoldeb a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Blynyddol ei oruchwylio gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, a'i gymeradwyo gan y Cyngor. Mae fersiynau dwyieithog o'r adroddiad ar gael ar wefan Cydraddoldeb <http://www.aber.ac.uk/cy/equality/equality-reports/> ynghyd ag adroddiadau cydraddoldeb blaenorol.

2. Fframwaith ar gyfer Cydraddoldeb:

Mae [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) y Brifysgol, a weithredwyd yn 2011, yn egluro ein hymrwymiad i amrywioldeb a chydaddoldeb a'i nod yw cefnogi'r Ddeddf Cydraddoldeb i sicrhau cymdeithas deg, cyfartal ac amrywiol. Yn ystod 2010-2011 cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu er mwyn cynnwys ein holl randdeiliaid yn y gwaith o lunio ein hamcanion a darparu sylfaen dystiolaeth i gryfhau ein perfformiad a sicrhau cydraddoldeb. Datblygwyd cynllun gweithredu hefyd i'n galluogi i fonitro a chyflawni ein nodau. Mae ein chwe amcan yn cynnwys:

Amcan 1	YMGORFFORI A HYRWYDDO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIOLDEB: drwy hyfforddiant, arweinyddiaeth a chyfathrebu. Er mwyn meithrin diwylliant wedi'i seilio ar urddas, cwrteisi a pharch, byddwn yn hyrwyddo gwerthoedd craidd cydraddoldeb fel eu bod yn sail i ymddygiad cadarnhaol ac yn darparu fforwm i drafod y gwerthoedd hyn ar gyfer staff a myfyrwyr.
Amcan 2	CASGLU A MONITRO DATA: er mwyn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau Drwy adolygu trefniadau ar gyfer casglu data gan staff a myfyrwyr ar y nodweddion gwarchodedig byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ansoddol a meintiol ar gael i lywio ein penderfyniadau. Cynnal archwiliadau cyflog cyfartal a mynd i'r afael â chydaddoldeb mewn cyflog staff a strwythurau cysylltiedig.
Amcan 3	DATBLYGU STRATEGAETH A PHOLISI'R BRIFYSGOL: er mwyn sicrhau cynhwysiad a thryloywder Drwy hyrwyddo a dathlu ein hamgylchedd amrywiol a chynhwysol byddwn yn sicrhau lles staff a myfyrwyr, a thrwy hynny alluogi iddynt gyflawni eu gwir botensial. Byddwn yn adolygu polisiâu a threfnweithiau er mwyn adeiladu ar ein hamgylchedd gweithio positif ac yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb yn Siarter y Myfyrwyr.
Amcan 4	AMGYLCHEDD: gwella hygyrchedd yr amgylchedd corfforol a rhithwir. Drwy ddarparu amgylchedd cynhwysol ar gyfer dysgu, gweithio ac ymweld byddwn yn dangos pwysigrwydd hygyrchedd i bawb.
Amcan 5	ALLANOL: codi ymwybyddiaeth o ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb Gan weithio gydag ymwelwyr, partneriaid, cyflenwyr a'n cymuned leol a byd-eang, byddwn yn cymryd camau gweithredol i hyrwyddo a gwella cydraddoldeb.

Mae'r [Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb](#), sy'n gyd-bwyllgor y Cyngor a'r Senedd, yn goruchwyllo gweithgareddau cydraddoldeb ac mae'r aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor, y Senedd, y Pwyllgor Staffio, Urdd y Myfyrwyr ac Undeb y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd 3 gwaith y flwyddyn ac fe'i cadeirir gan Ddirprwy Is-Ganghellor. Mae'r Cofrestrydd, Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol a Chymorth Myfyrwyr a'r Cynghorydd Cydraddoldeb hefyd yn bresennol. Gellir dod o hyd i gylch gorchwyl y Pwyllgor ar [wefan Cydraddoldeb](#).

Gwelir cydraddoldeb hefyd yn ein Cynllun Ffi Blynnyddol (sy'n amlinellu lefel ffioedd myfyrwyr) drwy sicrhau bod mecanweithiau ar gyfer cynhwysiant ar waith a'n bod yn cefnogi cyfle cyfartal mewn addysg uwch.

Yn ystod 2010/11 cynhaliodd y Brifysgol ystod o weithgareddau gan gynnwys hyfforddiant, monitro ac adrodd, asesu effaith cydraddoldeb ac ati. Arolygwyd cynnydd y rhain gan gynllun gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb (adolygwyd y cynllun gweithredu blaenorol wrth ddatblygu'r cynllun newydd). Caiff cynnydd hefyd ei arolygu gan ein Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Cynllun Gweithredu Gweithredol a thrwy fod yn rhan o amryw o gynlluniau ac achrediadau cydraddoldeb, e.e. cynlluniau Tic Dwbl a Hyrwyddwyr Stonewall.

3. Hyrwyddo a Chefnogi Cydraddoldeb

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb mewn nifer eang o ffyrdd, drwy strategaethau, cynlluniau, codau ymarfer (REF), a thrwy weithgareddau megis hyfforddiant, fideos, tudalennau gwe, rhwydweithiau, asesiadau effaith a'i hymwneud â'r gymuned. Sonnir am rai o'r gweithgareddau hyn isod:

- (a) Mae ein [fideo Cydraddoldeb](#) yn 2½ munud o hyd ac mae'n sôn am ein diwylliant cydraddoldeb ac amrywioldeb. Cafodd y fideo ei lansio yn wreiddiol ym mis Mai 2010 a'i hail-lansio unwaith eto ym mis Awst 2011 yn sgil cael Is-ganghellor newydd i'r Brifysgol. Neges allweddol y fideo yw dangos fod cydraddoldeb o bwys i Brifysgol Aberystwyth; bod gwerth i'r gymuned o fwy na 10,000 o staff a myfyrwyr a bod amrywioldeb yn cael ei ddathlu. Mae'n cynnwys y gymuned ehangach yn ogystal, gan ddangos ymwelwyr a myfyrwyr dysgu o bell mewn gwledydd eraill. Ym mis Mai 2011 cafodd y fideo ei rhoi ar restr fer Gwobr Heist (sef rhaglen wobrau ar gyfer marchnata yn y sector AU) am yr 'Ymgyrch Cyfathrebu Mewnol Gorau'.
- (b) Diweddarwyd tudalennau gwe [Cefnogaeth i Staff](#) Adnoddau Dynol ym mis Mehefin 2011 er mwyn rhoi gwybodaeth ar [Hyrwyddwyr a Rhwydweithiau Cydraddoldeb](#) y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar Hyrwyddwyr Cydraddoldeb (Athena SWAN a Stonewall Cymru) a rhwydweithiau mewnol megis y LHDTh, Cydlynwyr Anabledd Adrannau a Bord Gron y Merched.
- (c) Mae ein tiwtorial e-ddysgu dwyieithog '[Amrywiaeth yn y Gweithle](#)' yn rhoi gwybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal â dolenni i bolisiau mewnol, cymorth allanol a chyrff cydraddoldeb. Mae'r tiwtorial yn rhan o broses cyflwyno'r Brifysgol i staff newydd ac mae'n orfodol i staff sydd ar baneli cyfweld. Cafodd y tiwtorial ei ail-lansio ym mis Hydref 2011 gyda rhyngwyneb haws ei ddefnyddio.
- (d) Ym mis Mai 2011, daeth gwaith Grŵp Gorchwyl Asesu Effaith Cydraddoldeb i ben. Roedd y Grŵp wedi creu cadwrfa beilot ar gyfer polisïau, wedi llunio canllawiau arfer da ar ddatblygu polisïau (a oedd yn cynnwys templed safonol ar gyfer polisïau) ac wedi creu ffurflen sgrinio Asesu Effaith Cydraddoldeb ar gyfer polisïau newydd/diwygiedig. Mae gofyn ystyried camau gweithredu pellach ar y fenter hon dros y flwyddyn sydd i ddod. Cynhaliwyd asesiadau effaith hefyd yn ystod y broses ailstrwythuro mawr a'u rhannu gyda'r Undebau.
- (e) Mae Cydlynwyr Anabledd yr Adrannau (a sefydlwyd yn 2010) yn dal i gwrdd bob mis ac fe'u cydlynir gan y swyddfa Cymorth Myfyrwyr. Pwynt cyswllt ymgynghorol yw rôl y cydlynnydd, gan gyfeirio eraill at gefnogaeth gyffredinol ac arbenigol, e.e. Gwasanaeth Dyslecsia, Lwfans Cymorth Anabledd, ac ati. Mae gan y Brifysgol rwydwaith o fwy na 25 o gydlynwyr ar draws pob adran, a'r rheiny'n cwrdd yn rheolaidd i rannu arfer da a chefnogi cydraddoldeb anabledd i fyfyrwyr a staff.
- (f) Sefydlwyd rôl Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ym mis Mai 2011 a chynhaliwyd hyfforddiant i gefnogi'r rôl hon. Mae Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn cynorthwyo i ymgorffori a sôn am gymorth cydraddoldeb ledled y Brifysgol, gan hefyd gefnogi datblygiad ein hamcanion cydraddoldeb.
- (g) Ym mis Mehefin 2011, daeth y Brifysgol yn aelod o Siarter Athena SWAN sy'n cydnabod ac yn dathlu arferion cyflogaeth da ar gyfer menywod sy'n gweithio ym myd gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg mewn addysg uwch ac ymchwil. Etholwyd Pennaeth yr Adran Seicoleg yn Hyrwyddwyr Athena SWAN a hi fydd yn llywio'r Brifysgol tuag at Wobr Efydd Sefydliadol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.
- (h) Ym mis Gorffennaf 2011 daeth Prifysgol Aberystwyth yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall, sef fforwm arferion da i gyflogwyr ynghylch cyfeiriadedd rhywiol. Rhoddodd Tîm y Gweithle, Stonewall Cymru gymorth a chynghor i'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chynorthwyo ag amcanion cydraddoldeb LHDTh penodol. Ym mis Ionawr 2012 cafodd y Brifysgol ei graddio yn 305 ym Mynegai Gweithle Stonewall.

- (i) Yn ogystal â'r mentrau rhwydweithio y sonnir amdanynt uchod, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydweithio allanol yn ystod y sesiwn academiaidd 2010-11 fel y dangosir isod er mwyn ymgynghori ar gydraddoldeb ac amrywioldeb a'u hyrwyddo. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi modd i rannu arfer da, datblygu mentrau cydraddoldeb a gwella cysylltiadau â'r gymuned.

Digwyddiadau Allanol:	
Grŵp Cydraddoldeb a Hyder Ceredigion (Chwarterol)	Mae'r grŵp hwn, a drefnir gan Heddlu Dyfed-Powys a'i fynychu gan gynrychiolwyr amrywiol y gymuned, e.e. LHDTh, cynrychiolwyr crefydd, Age Concern, cefnogi dioddefwyr, ymgyrchwyr anabledd, ac ati, yn trafod materion cydraddoldeb lleol ac yn adrodd ar ystadegau troseddau (e.e. troseddau casineb) ar gyfer gwahanol grwpiau cydraddoldeb.
Uned Herio Cydraddoldeb, Grŵp Cyswllt Cymru (Chwarterol)	Grŵp ymgynghorol wedi'i hwyluso gan yr Uned Herio Cydraddoldeb er mwyn rhoi cyfle i ymarferwyr cydraddoldeb ym Mhrifysgolion Cymru drafod materion o ddiddordeb cyffredin a rhannu gwybodaeth ac arfer da. Mae CCAUC (ein cyngor cyllido) hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Mae'r Brifysgol hefyd yn cymryd rhan mewn amryw o brosiectau'r UHC drwy'r grŵp hwn, h.y. Cyflog Cyfartal.
Cynllun Mentora Menywod mewn Prifysgolion (WUMS) (Chwarterol)	Mae'r Cynllun Mentora Menywod mewn Prifysgolion (WUMS) yn hyrwyddo a hwyluso datblygiad proffesiynol menywod sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru o fewn y bartneriaeth rhwng prifysgolion. Mae'r Brifysgol yn aelod Llywio gweithgar o'r grŵp hwn.
Rhwydwaith Cyfnewid Cydraddoldeb, Comisiwn Cydraddoldeb a lawnderau Dynol (Cymru) (Chwarterol)	Aelod o rwydwaith Cyfnewid Cydraddoldeb y Comisiwn sy'n hyrwyddo cyfnewid arfer cyflogi effeithiol ac arloesol i gyflogwyr, hyfforddwyr ac ymgynghorwyr sy'n ymrwymo i gyrraedd nod cydraddoldeb yn y gweithle. Mae aelodaeth o'r rhwydwaith yn cynnwys digwyddiadau rheolaidd ledled Cymru ar faterion cydraddoldeb allweddol, datblygu arweinyddiaeth i hyrwyddo cydraddoldeb, ffurfio partneriaethau effeithiol i gyflawni'r newid, cynhadledd Flynyddol a chyfleoedd i rwydweithio.

- (j) Mae'r Brifysgol yn parhau i gynnig ystod o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, e.e. polisïau Gweithio'n Hyblyg, Absenoldebau Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu a Chyfnod Absenoldeb Rhieni, er mwyn rhoi'r cyfle i staff ddatblygu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae rhestr o bolisïau i'w gweld ar dudalennau [Cyflogaeth](#) gwefan Adnoddau Dynol.
- (k) Yn dilyn cynllun peilot Teclyn Rheoli Straen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2010, bu'r Brifysgol yn ymwneud wedyn yn 2011 â phrosiect peilot Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sef 'Gwella Perfformiad drwy Les ac Ymgysylltu', ochr yn ochr â phrifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig er mwyn adolygu dulliau eraill o ystyried lles. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn arolwg 'ASSET'. Cyflwynwyd canlyniadau ac argymhellion yn dilyn yr arolwg hwn i wahanol grwpiau a phwyllgorau, ac i'r 13 adran peilot tua diwedd 2011.
- (l) Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd yn parhau i gynnig [gwasanaeth cyfryngu](#) sydd ar gael i unrhyw aelod o staff. Nod y gwasanaeth yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n arwain at wrthdaro neu anghydfod a cheisio eu datrys drwy ddeialog adeiladol a chyfrinachol. Mae'r sesiynau yn gwbl wirfoddol ac yn hollol gyfrinachol i'r cyfranogwyr. Mae gennym hefyd wasanaeth iechyd galwedigaethol a chynllun dychwelyd i'r gwaith.
- (m) Yn dilyn ei hail flwyddyn weithredol lawn, mae'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr wedi sicrhau canlyniad trawiadol o 94% o'i defnyddwyr yn fodlon â'r gwasanaeth (Arolwg iGrad). Llwyddodd y Brifysgol i gael sgôr uchel o 93% o ran bodlonrwydd myfyrwyr ar gyfer cymorth anabledd ac fe'i gosodwyd yn 8fed yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr yn y Deyrnas Unedig yn ôl arolwg y *Times Higher Education*.

Mae integreiddio pellach ar wasanaethau'r rheng flaen yn parhau. Yn 2011-12 buddsoddodd y Brifysgol mewn adeilad newydd bwrpasol i fod yn Ganolfan Lles Myfyrwyr yn ogystal â Meithrinfa Plant o'r radd flaenaf.

- (n) Mae Cymorth i Fyfyrwyr yn parhau i gefnogi adrannau i ddeall y gwahaniaeth rhwng addasiadau adweithiol ac agwedd gynhwysol drwy weithio'n agos â Chydlynwyr Anabledd yr Adrannau. Maent hefyd yn rhagweithiol wrth sylwi ar anghenion myfyrwyr fel rhan o'r broses dderbyn. Datblygwyd y rôl ymhellach drwy recriwtio dau Gynghorydd Hygyrchedd Myfyrwyr i gefnogi materion hygyrchedd a datblygu ymagwedd Cwricwlwm Cynhwysol. Maent yn rhoi cyngor a gwybodaeth i ymgeiswyr a myfyrwyr (gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal, myfyrwyr anabl a rhai sydd ag anawsterau dysgu) ynghylch y ddarpariaeth sydd ar gael o ran eu hanghenion penodol yn y Brifysgol.
- (o) Mae ein tîm Gwasanaethau Hygyrchedd yn cynnig gwasanaeth atgyfeirio cynhwysfawr ar gyfer unrhyw fyfyrwr sy'n cael anhawster astudio neu sy'n wynebu heriau penodol wrth gyflawni eu potensial academiaidd llawn. Mae'r gwaith a gyflawnwyd yn cynnwys: cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDA); sicrhau addasu rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl a chydlynwyr cymorth ar eu cyfer. Mae hyn yn cael ei ymgorffori i ddull 'un tîm' i gefnogi anghenion dysgu myfyrwyr. Mae gweithgareddau craidd yn cynnwys gwerthuso proffiliau dysgwyr, cymorth i fyfyrwyr nad ydynt yn cael Lwfans Myfyrwyr Anabl, cymorth dysgu arbenigol, gwasanaeth mentora, croeso cyn cyrraedd, cymorth cyn ymadael, aseswyr a mentoriaid, a hyfforddiant ar gyfer cymryd nodiadau.
- (p) Yn ystod 2011 cytunodd Prifysgolion Aberystwyth a Bangor i gyd-ddatblygu Strategaethau Dysgu ac Addysgu ac Ehangu Mynediad fel rhan o'u Cynghrair Strategol. Mae'r Strategaeth yn rhedeg o 2011-12 i 2013-14 ac mae wedi'i llywio gan amcanion y ddwy brifysgol a'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ymestyn y gwaith a wnaed yn CADARN, sef Strategaeth Ranbarthol Addysg Uwch yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, a oedd yn dwyn ynghyd darparwyr AU ac AB yn y rhanbarth i hyrwyddo ac ymestyn cyfleoedd dysgu. Mae'r Strategaeth yn ceisio parhau â'r cynnydd a wnaed yn ein strategaethau Dysgu ac Addysgu blaenorol i ddiwallu anghenion corff amrywiol o fyfyrwyr ac i sicrhau bod rhaglenni a modiwlau yn briodol i gymdeithas amrywiol.
- (q) Mae'r [Ganolfan Ehangu Mynediad a Chynhwysiant Cymdeithasol](#) wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol neu ariannol i Addysg Uwch. Mae'r Ganolfan yn parhau i weithio gydag ysgolion, colegau Addysg Bellach ac yn y gymuned ar ystod o brosiectau megis [Prifysgol Haf Aberystwyth](#), [Ehangu Gorwelion](#), [Blas o Brifysgol](#), [Cefnogaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru](#), [STEM- Estyn Allan Ehangu Mynediad](#), [Diwrnod Rhyngwladol y Merched](#), ac ati. Mae hefyd yn gyfrifol am Farc Safon Buttle UK mewn Addysg Uwch a [Chynllun Cymorth Gadael Gofal](#) sy'n cynnig cymorth o'r cyfnod cyn gwneud cais hyd at raddio, ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr hŷn yn ogystal â myfyrwyr yn syth o'r ysgol a'r coleg.
- (r) Mae'r Brifysgol, fesul achos, yn defnyddio rhannau perthnasol o Becyn Cymorth Cydraddoldeb y Grŵp Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (ar gyfer tendrau caffael dros drothwy o £100k a reolir yn uniongyrchol gan yr uned caffael), sef pecyn a ddatblygwyd er mwyn cynorthwyo'r rhwymedigaethau i hyrwyddo cydraddoldeb ym maes prynu. Mae'r Uned Caffael wedi cynnal asesiadau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, e.e. Adolygiad Caffael a Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy y Sector Cyhoeddus (SPAF) er mwyn rhoi arwyddion ar wella cydraddoldeb ac amrywioldeb a sut orau i sicrhau y caiff arferion da eu lledaenu ledled y sefydliad. Yn ystod haf 2011 aeth panel allweddol o brif randdeiliaid mewnol ati i ailystyried, diweddarau ac adnewyddu'r Fframwaith, gyda chyfranogiad gan Gwerth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau a galwadau

sy'n cystadlu, bychan fu unrhyw gynnydd pellach. Mae llawlyfr cyfarwyddyd caffael hefyd bron â'i gwblhau, gan gyd-fynd â chyflwyno Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol newydd y Brifysgol, ac mae rhaglen hyfforddi ar y gweill ar gyfer y rheiny. Mae cyfarfodydd ar ymwybyddiaeth cydraddoldeb ym maes caffael yn cael eu cynllunio gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

- (s) O ran cymorth i fyfyrwyr Rhyngwladol ac o Ewrop, mae'r Brifysgol yn parhau i gynnig cefnogaeth a gwybodaeth ar ystod eang o faterion, yn ogystal â darparu cyngor arbenigol ar fewnfudo a chymorth wrth wneud cais am fisa. Trefnir digwyddiadau a theithiau i groesawu myfyrwyr rhyngwladol a'u teuluoedd gydol y flwyddyn a chynigir hefyd nifer o Ysgoloriaethau a chyfleoedd cyllid ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol ac Ewropeaidd. Mae cymorth ieithyddol a dosbarthiadau iaith hefyd ar gael i alluogi pob myfyriwr i gyflawni ei botensial academiaidd llawn, er enghraifft, drwy ddarparu modiwlau israddedig mewn ysgrifennu academiaidd ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn siaradwyr brodorol y Saesneg, yn ogystal â gweithdai, cyrsiau byrion ac ymgynghoriadau unigol ar sgiliau astudio ac ysgrifennu academiaidd.
- (t) Mae'r Brifysgol yn parhau i hyrwyddo'r Cynllun Mentora Menywod mewn Prifysgolion (WUMS) i staff. Nod y Cynllun hwn yw hyrwyddo a hwyluso datblygiad proffesiynol menywod sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru o fewn y bartneriaeth rhwng prifysgolion (sef yr holl Brifysgolion yng Nghymru). Mae'r Brifysgol yn parhau ar Bwyllgor Llywio'r Cynllun ac mae ganddi 9 o fenywod yn rhan o'r cynllun ar hyn o bryd, naill ai yn fentor neu'n cael eu mentora.
- (u) Mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio ar y cynllun gweithredu o'i hail Archwiliad Cyflog Cyfartal a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2010. Mae hwn yn cynnwys tasgau i adolygu prosesau dyrchafu, gan gynnwys bandiau cyflog staff uwch, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, ac i gydnabod problem cyflogaeth gyffredinol o ran diffyg menywod mewn swyddi uwch. Mae strategaethau i barhau i fynd i'r afael â bylchau cyflog yn rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Amcanion.
- (v) Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig y Brifysgol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2012. Y prif ychwanegiadau yw'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog sy'n anelu at wneud y defnydd gorau o adnoddau'r iaith Gymraeg yn y gweithle, a'r Polisi ar Gyfieithu'r Wefan, sef dull strategol o drefnu dwyieithrwydd ar wefan y Brifysgol.

4. Monitro Cydraddoldeb

Mewn blynyddoedd blaenorol casglwyd a dadansoddwyd data ystadegol sy'n ymwneud â'n perfformiad cydraddoldeb fel yr oedd yn ofynnol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb blaenorol. Fel y nodwyd eisoes, un o ofynion allweddol Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n benodol i Gymru yw bod y Brifysgol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y mae'n cydymffurfio â'r dyletswyddau erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys data monitro cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2010 hyd at 31 Mawrth 2012 ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig yn y meysydd canlynol:

- y bobl a gyflogir ar 31 Mawrth bob blwyddyn;
- y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi yn ystod y flwyddyn;
- cyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swydd, gan nodi faint ohonynt oedd yn llwyddiannus yn eu cais a faint nad oeddynt;
- cyflogeion sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint lwyddodd yn eu cais;
- cyflogeion sy'n cwblhau'r hyfforddiant;
- cyflogeion sy'n rhan o weithdrefnau cwyno naill ai fel achwynydd neu fel person y gwneir cwyn yn ei erbyn;
- cyflogeion sy'n destun gweithdrefnau disgyblu;
- cyflogeion sydd wedi gadael ein cyflogaeth.

Mae gofyn hefyd cael data penodol ar gyfer cydraddoldeb rhywedd, h.y. swydd, cyflog, graddfa, math o gontract, patrwm gweithio. Ymhellach, argymhellir hefyd gael data myfyrwyr ar gyfer cyfansoddiad y myfyrwyr, ceisiadau, cadw, cyraeddiadau, lleoliadau gwaith, a chwynion.

Er ei bod yn ofynnol i ni adrodd ar ddata cyflogaeth cydraddoldeb, mae llai o argymhellion ynghylch y gofyniad i adrodd ar ddata myfyrwyr. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys data allweddol yn yr adroddiad hwn, e.e. cyfansoddiad y myfyrwyr, derbyniadau, cynnydd a chyrhaeddiad, lleoliadau gwaith / rhaglenni wedi'u targedu a chwynion.

Mae ffynonellau gwybodaeth mewnol ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys data gan yr Adrannau Gwasanaethau Gwybodaeth, Denu a Derbyn, Cyngori ar Yrfaoedd ac Adnoddau Dynol. Defnyddiwyd hefyd ddata allanol gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac o adroddiad ystadegol blynyddol yr Uned Herio Cydraddoldeb.

Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth cyflogaeth ynghylch Nodweddion Gwarchodedig hil (sef ethnigrwydd a chenedligrwydd), rhywedd, anabledd, oedran, priodas a phartneriaethau sifil. Mae rhywfaint o ddata ar gael hefyd ynghylch Beichiogrwydd a Mamolaeth ac ni chesglir data am Gyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd neu Gred ac Ailbennu Rhywedd. Fodd bynnag, caiff y bylchau yn y data eu diwallu drwy ein system e-recrwtio a system rheoli Adnoddau Dynol newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu.

5. Penawdau Data Allweddol

Ar y ddwy dudalen ganlynol dangosir penawdau/dangosfyrddau allweddol o'r data a ddadansoddwyd, h.y. ystadegau ar ddata cyflogaeth staff (tudalennau 11-19) a data myfyrwyr (tudalennau 20-27) er mwyn gwneud y data yn symlach ac yn haws ei ddeall:


A: STAFF

Cyfansoddiad y Staff:


Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2012 yw 2,210 o'i gymharu â 2,024 o staff ym mis Medi 2011.

- Rhywedd:** Mae'r cymarebau o ran dynion a menywod yn hafal fel yn y blynyddoedd blaenorol – ym mis Mawrth 2012 roedd 50.4% o fenywod a 49.6% o ddynion yn gyflogedig.

- O'r 2,210 o staff, mae 57% yn gweithio'n amser llawn a 43% yn gweithio'n rhan-amser. Fel y dangosir yn y graff gyferbyn, mae staff benywaidd yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser.



- Mae'r graff isod yn dangos y gwahaniaethau o ran y rhywiau ar gyfer staff yn yr amrywiol deuluoedd swyddi.




- Anabledd:** Canran y staff ag anabledd ym mis Mawrth 2012 yw 4.9% o'i gymharu â 4.1% ym mis Medi 2011 sy'n parhau i fod yn duedd gynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Salwch hirsefydlog a symudedd corfforol a gynrychiolir bennaf.

- Ethnigrwydd:** Mae ethnigrwydd staff yn debyg i ffigyrau'r blynyddoedd blaenorol heblaw fod y nifer oedd yn datgan 'Gwyn' wedi gostwng o 84.2% i 80.5% tra bod nifer data 'Gwrthodwyd gwybodaeth / Ddim yn gwybod' wedi codi o 4.6% i 8.2%. Mae'r ffigwr ar gyfer 'Du a Lleiafrifoedd Ethnig' yn debyg i ffigwr y llynedd, sef 4.0%.

Gwyn	80.5%	Du a Lleiafrifoedd Ethnig	4.1%
Gwyn arall	7.4%	Gwrthodwyd Gwybodaeth/Ddim yn Gwybod	8.2%

- Cenedligrwydd:** Nododd staff genedligrwydd o bron 50 o wledydd. Y gwledydd uchaf a nodwyd yw Gwlad Pwyl a'r Almaen.

- Oedran:** Mae'r graff yn dangos cyfansoddiad oedran yr holl staff. Mae staff sydd dros 50 yn fwy tebygol o fod yn ddynion, heblaw yn y band o dan 21 oed.



- Y Gymraeg:** Y categori/canran uchaf o staff sy'n siarad Cymraeg (hyd at lefel 2 a 3) yw'r staff Clerigol/Ysgrifenyddol sef 56%.


Monitro Recriwtio:

- Hysbysebwyd 308 o swyddi a derbyniwyd 2,166 o geisiadau yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol. Roedd 51% o'r ymgeiswyr yn fenywod a 49% yn ddynion.

B: MYFYRWYR

Cyfansoddiad y Myfyrwyr:

Yn 2011-12, cofrestrwyd 10,213 o israddedigion ac ôl-raddedigion (o'i gymharu â 9,140 yn 2010/11) – 34% yng nghyfadrann y Gwyddorau Cymdeithasol, 33% yn y Celfyddydau a 32% yn y Gwyddorau, fel y dengys yn y tabl rhywedd canlynol:




- **Rhywedd:** Roedd 49% o'r holl fyfyrwyr yn fenywod a 51% yn ddynion, er bod rhaniad y rhywiau yn y flwyddyn flaenorol yn agosach i 50:50.
- **Anabledd:** Cofnodwyd bod gan 10.2% o fyfyrwyr anableddau, sy'n debyg i ffigwr y flwyddyn flaenorol. Nododd 57% o fyfyrwyr ag anabledd fod ganddynt 'anhawster dysgu penodol', e.e. dyslecsia.
- **Ethnigrwydd:** Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn debyg i ddata'r blynyddoedd blaenorol, er bod canran uwch wedi gwrthod rhoi gwybodaeth eleni.

Ethnigrwydd	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12
Gwyn (yn cynnwys 'Cefndir Gwyn Arall')	88.6%	87.0%	89.0%	81.6%
Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig	7.1%	7.0%	4.0%	5.9%
Ddim yn gwybod / Gwrthod Gwybodaeth	4.3%	6.0%	7.0%	12.6%
	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

- **Cenedligrwydd:** Roedd 82% o israddedigion ac ôl-raddedigion yn fyfyrwyr cartref (sef o'r DU), roedd 10% yn Ewropeaid ac 8% yn Rhyngwladol. Roedd 31% o'r 'myfyrwyr cartref' yn dod o Gymru, gostyngiad o'r 34% y llynedd.
- **Cymraeg:** Cofnodir data ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn 83% nad ydynt yn siarad Cymraeg, 9% yn siaradwyr Cymraeg rhugl, 6% yn siarad Cymraeg ond nid yn rhugl ac ni wyddys am 1%.

- **Oedran:** Dangosir Categorïau Oedran myfyrwyr (israddedigion ac ôl-raddedigion) mewn canrannau yn y siart gyferbynn.



Ceisiadau, Cynigion a Derbyniadau (nifer israddedigion yn cofrestru):

- Mae'r tabl isod yn dangos Ceisiadau, Cynigion a Derbyniadau Cadarn israddedigion newydd Medi 2011, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, o ran ymgeiswyr Cartref/UE. Mae'r ceisiadau a'r cynigion yn unol â rhai ar ddiwedd mis Mai, a'r ffigwr derbyniad fel yr oedd ar y noson cyn cofrestru.

	Ceisiadau	Cynigion (Diamod neu Amodol)	Cofrestrwyd
Cyfanswm 2011-12	11451	10880	2991
Cyfanswm 2010-11	9969	9400	2584
Cyfanswm 2009-10	8835	8435	2696
Cyfanswm 2008-09	7585	7290	2406

O ddadansoddi'r ceisiadau yn ôl rhyw, roedd 50% yn fenywod a 50% yn ddynion, ac o ran y nifer yn cofrestru roedd 47% yn fenywod, 53% yn ddynion.

Nodwyd anableddau ar gyfer 9.3% o'r derbyniadau, 29% yn byw yng Nghymru a 3% wedi gwneud cais yn Gymraeg.

6. Casgliadau a Chamau Gweithredu

Mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd, ac mae'n ceisio dangos bod ein diwylliant, gweithgareddau a'n hymrwymiad yn cyflawni ein dyletswyddau statudol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â cheisio mynd y tu hwnt i hynny hefyd. Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i ymgorffori'n gryf yng Nghynllun Strategol y Brifysgol ac yn ein gwaith yn hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb ac amrywioldeb.

Nod yr adroddiad yw dangos bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, er y cydnabyddir y byddai'r rhain wrthi'n cael eu datblygu ar y dyddiad adrodd 31 Mawrth 2012.

Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar feysydd blaenoriaeth i'w datblygu yn y dyfodol, e.e. bylchau yn y data ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, dulliau monitro, archwilio cyflog cyfartal a mwy o hyrwyddo ar y [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#). Rydym yn cydnabod bod gennym gryn waith yn dal i'w wneud o ran casglu data cydraddoldeb ar gyfer y nodweddion gwarchodedig newydd er bod hyn ar y gweill gan ein bod yn datblygu system rheoli Adnoddau Dynol ac e-recriwtio newydd. Mae camau gweithredu allweddol eraill ar gyfer y flwyddyn i ddod i'w gweld yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac maent yn cynnwys:

- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Deddf Cydraddoldeb 2010 ledled cymuned y Brifysgol;
- Sicrhau bod gwybodaeth am gydraddoldeb yn hawdd cael gafael arni yn electronig a thrwy ffurfiau amgen;
- Gwella ein cynghrair â Phrifysgol Bangor i rannu arferion da a dulliau cydweithredu er mwyn cyflawni amcanion cydraddoldeb;
- Adolygu, diweddarau a symleiddio'r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a lledaenu canllawiau ar bolisi arfer da;
- Sicrhau statws Dyfarniad Efydd Athena SWAN i'r Brifysgol;

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth o wir bwys i Brifysgol Aberystwyth. Mae gennym gyfoeth o dystiolaeth fod myfyrwyr a staff o dros 100 o wledydd ledled y byd yn gwybod am yr agwedd hon ar fywyd yn Aberystwyth ac yn falch ohoni. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod urddas, parch a chydweithio yn ganolog i'n holl weithgareddau a'n bod yn parhau i werthfawrogi a dathlu amrywiaeth ein cymuned.

Ar y tudalennau canlynol ceir data ystadegol a chamau gweithredu dilynol ar ddata cyflogaeth (tudalennau 11-19) a data myfyrwyr (tudalennau 20-27).

Dadansoddiad Ystadegol: Data Cyflogaeth Staff, 6 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012

Daw'r ffigyrau ar gyfer meincnodi o adroddiad yr Uned Herio Cydraddoldeb, '[Cydraddoldeb mewn addysg uwch: adroddiad ystadegol 2012](#)' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012, sy'n dadansoddi data o'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer 2010/11.


Sylwer: rhoddwyd seren (*) i ddynodi ffigyrau o dan 5 er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw aelod o staff.

1. Pobl a gyflogid ar 31 Mawrth 2012 (cyfansoddiad y staff):

Mae'r canlynol yn grynodeb o ddata staff a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2012. Cynhwysir data am yr holl staff sydd â chontract (gan gynnwys contractau 0 awr, h.y. staff achlysurol) yn ôl y categorïau canlynol:

1. y bobl a gyflogir ar 31 Mawrth bob blwyddyn
2. y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi yn ystod y flwyddyn
3. cyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swydd, a faint ohonynt oedd yn llwyddiannus
4. cyflogeion sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint lwyddodd yn eu cais
5. cyflogeion sy'n cwblhau'r hyfforddiant
6. cyflogeion sy'n rhan o weithdrefnau cwyno
7. cyflogeion sy'n destun gweithdrefnau disgyblu
8. cyflogeion sydd wedi gadael ein cyflogaeth.

Cyfanswm nifer y staff a gyflogid ar 31 Mawrth 2012 oedd 2,210 aelod o staff, a gwelir y nifer yn ystod y cyfnod 2005 i 2012 yn y graff isod:



Mae'n bwysig nodi bod y ffigyrau yn ystod y blynyddoedd blaenorol wedi'u casglu i gyd-fynd â dyddiadau adrodd HESA, h.y. ar ddechrau'r tymor academaidd. Mae'n bosibl fod y data ar gyfer mis Mawrth 2012 wedi codi ychydig oherwydd cyflogi staff dros-dro dros fisoedd yr haf. Gellir dadelfennu cyfansoddiad cyfanswm y staff i'r nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:


1a. Rhywedd:

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae cymarebau rhywedd menywod a dynion wedi aros yn gyfartal dros y blynyddoedd:


	Gorff-05	Hyd-06	Hyd-07	Awst-08	Medi-09	Medi -10	Medi -11	Mawrth-12
Menywod (%)	49.5%	50.1%	50.0%	49.8%	49.9%	50.4%	50.1%	50.4%
